

## Tasg 4

(Estynnol, eitem 1)

Mae'r darnau hyn wedi eu cymryd o nofel ac maen nhw'n cynnwys llawer o ddeialog, e.e.

'Dydi o ddim yn wir, yn nag ydi, Miss?' gofynnodd Huw. Atebodd hi ddim.

'Yn nag ydi?' meddai Huw eto, mewn llais bach, bach.

'Wel, mae 'na ryw si ...' atebodd hithau.

Wrth ysgrifennu deialog rhaid dechrau llinell newydd a chynnwys dyfynodau ar ddechrau ac ar ddiwedd y darnau mae'r cymeriad yn eu dweud, e.e.

'Dydi o ddim yn wir, yn nag ydi, Miss,'  
neu

"Dydi o ddim yn wir, yn nag ydi, Miss,"

Yn aml iawn, mae'r gair sy'n dilyn yn egluro pwy sy'n siarad, e.e.

'Dydi o ddim yn wir, yn nag ydi, Miss' **gofynnodd**  
Huw.

Atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Argraffwch y ddau ddarn a thanlinellwch y gwahanol eiriau mae Gwenno Hughes wedi eu defnyddio i ddangos pwy sy'n siarad.
2. Gwnewch restr o'r geiriau.
3. Ysgrifennwch ddarnau o ddeialog byr a defnyddiwch y geiriau rydych chi wedi eu nodi i ddangos pwy sy'n siarad.
4. Cofiwch ddefnyddio'r geiriau hyn yn eich gwaith ysgrifennu.